



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 61
RHAGFYR 2013

Am y tro cyntaf erioed yn hanes y Llyfrgell Genedlaethol mae'n bosib gweld gyda'i gilydd mewn un ystafell rhai o brif drysorau llenyddiaeth gynnar Cymru. Arddangosir Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Taliesin, sydd ym meddiant y Llyfrgell, ynghyd â dau lawysgrif arall, sef Llyfr Aneirin o Lyfrgell Caerdydd a Llyfr Coch Hergest o Lyfrgell Bodley, Rhydychen. Ysgrifennwyd y llawysgrifau hyn yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac ynddynt ceir llawer o gyfeiriadau at chwedloniaeth gynnar Cymru. Agorwyd yr arddangosfa ar y 12 Hydref gan John Griffiths, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, ac anogodd bawb i ymweld â'r Llyfrgell i fwynhau'r arlwy arbennig hon. Hwn fydd ond ail ymweliad Llyfr Coch Hergest ag Aberystwyth ers iddo gael ei alltudio rhyw ddau gan mlynedd yn ôl a go brin y bydd yn dychwelyd eto yn y dyfodol agos. Felly fe'n gwahoddir i wneud yn fawr o'r cyfle hanesyddol hwn drwy fynd ar ein hunion i weld y casgliad amhrisadwy o lawysgrifau. O dderbyn y gwahoddiad unigryw hwn a threfnu ymweliad mae'n siŵr y down i wybod mwy am y dogfennau a'u pwysigrwydd yn hanes ein cenedl.

Yn ystod yr wythnosau nesaf estynnir i ni wahoddiad i achlysur unigryw arall, sef geni baban ym Methlehem. Yno mewn beudy oer, budr a digon di-nod cawn gyfle i syfrdanu a rhyfeddu wrth inni dystio i ddyfodiad Duw i'n byd ar ffurf baban. Nid gwahoddiad yw hwn i weld darn o hanes ond gwahoddiad ydyw i gofio am ddiwyddiad hanesyddol a wnaeth wyrdroi hanes ein byd. Ac mae hyd yn oed yn fwy na hynny. Mae'n gyfle inni fynd a chofleidio bywyd yn ei holl gyflawnder a gwneud y baban, y bwndel bach o gariad, yn eiddo i ni ein hunain er mwyn iddo drawsffurfio ein bywydau. O dderbyn y gwahoddiad cawn ddod i wybod mwy am y Duw byw a'n carodd gymaint fel iddo anfon ei unig anedig Fab i'n byd.

Gobeithio y gwnawn ni'n fawr o'r ddau wahoddiad uchod. Mae'n siŵr ein bod yn diolch am holl drysorau ein gwlad ond mae ein diolch pennaf bob amser am y trysor gorau 'erioed, Iesu Grist.

Pob bendith dros Wyl y Nadolig

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS RHAGFYR 2013

Cyhoeddwr y Mis: Mairwen Jones	Organydd y Mis : Mair Evans	
1 Rhagfyr 10.30yb 2.30yp Sul Cyntaf yr Adfent	Ysgol Sul Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Non
8 Rhagfyr 10.30yb Ail Sul yr Adfent	Oedfa'r Garol a'r Gân: Gweinidog Cynhelir yr Ysgol Sul	
15 Rhagfyr 10.30yb Trydydd Sul yr Adfent	Oedfa arbennig i gyflwyno gweddïau: Gweinidog Cynhelir yr Ysgol Sul	
22 Rhagfyr 2.30yp Pedwerydd Sul yr Adfent	Oedfa Nadolig	
25 Rhagfyr 8.00yb	Oedfa Dydd Nadolig	
29 Rhagfyr 10.30yb	Oedfa Ddiwedd Blwyddyn : Gweinidog	
5 Ionawr 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Rhiannon a Carwen

I'CH DYDDIADUR

- 2 Rhagfyr: Cinio Cymorth Cristnogol ym Methel am 12.00-1.30yp. Bydd arian y cinio yn mynd i gronfa Apêl Ynysoedd y Philipinas.
- 3 Rhagfyr : Cyfarfod y Cyflwyniad ar y Cyd yn Festri'r Garn am 7yh.
- 4 Rhagfyr: Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel yn y Sosban Fach. Cysylltwch â'r Gweinidog ar frys os ydych yn dymuno dod i'r cinio.
- 16 Rhagfyr: Canu Carolau o gwmpas y Wardiau yn Ysbyty Bronglais. Croeso i unrhyw un ymuno â ni ar nos Lun, 16eg Rhagfyr. Byddwn yn cyfarfod yng nghapel yr ysbyty 6.15yh.
- 19 Rhagfyr: Plygain draddodiadol dan ofal Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan am 7.30yh.
- 20 Rhagfyr: Oedfa Nadolig Ysgol Penweddig yn Seion, Stryd y Popty am 10.30yb.
- 30 Rhagfyr: Cylch Darllen y Beibl am 2yp yn Festri Horeb
- 15 Ionawr: Cymdeithas Bethel am 2.30yp yng nghwmni Sue Jones-Davies
- 22 Mehefin: Gwibdaith Bethel a Horeb i ardal Ann Griffiths.

LLOFFION

Pen-blwydd Hapus i Mr Irfon Williams ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 10fed Rhagfyr. Cydymdeimlwn yn ddwys â Colin Roberts a'r teulu, Caemawr ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd â Mairwen ar farwolaeth ei modryb, Mrs Violet Jones, a oedd yn 105 mlwydd oed.

Rhaglenni Cymanfa Ganu 2014: Mae rhaglenni ar gael gan Ceris. Pris £1.35.

Oedfa Arbennig i gyflwyno Gweddïau: 15 Rhagfyr: Dewch i gyflwyno eich gweddïau yn yr oedfa hon ac i gynnu cannyll dros unigolyn, sefyllfa benodedig, gwlad arbennig neu unrhywbeth arall sy'n peri gofid. Bydd yr oedfa hon yn gyfle inni rannu ein gweddïau dros eraill yn gyhoeddus neu'n dawel drwy gynnu cannyll. Efallai yr hoffech ddod ag adroddiad o un o'r papurau newydd i ddarllen yn yr oedfa, neu sôn am adroddiad a glywsoch ar y teledu neu'r radio. Fy ngobaith yw y bydd yr oedfa yn fodd inni gofio bod goleuni Duw bob amser yn drech nag unrhyw sefyllfa yr ydym yn gorfod ei hwynebu mewn bywyd.

Cyfraniadau: Er mwyn cydymffurfio ag anghenion awdit byddwn yn cau'r llyfrau ar 31 Rhagfyr 2013 ac felly gofynnwn yn garedig i bob cyfraniad fod mewn llaw erbyn 22 Rhagfyr fan bellaf. Bydd unrhyw gyfraniad ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2014. Diolch yn fawr iawn.